# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 9 Mehefin 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

# 5(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod aelodau o'r cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**[Gofyn i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol]**

Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am honiadau gan chwythwyr chwiban bod plant ag awtistiaeth wedi cael eu cam-drin yng nghartref Tŷ Coryton yng Nghaerdydd?

## 4 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.2 i roi cyfarwyddiadau i bwyllgor priodol mewn perthynas â pharth perygl nitradau Cymru gyfan

(60 munud)

**NDM7703** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi effaith andwyol parth perygl nitradau Cymru gyfan ar amaethyddiaeth Cymru.

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 17.2, yn galw ar bwyllgor perthnasol y Senedd i adolygu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ar frys a chyflwyno ei argymhellion i'r Senedd.

Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

**Cyd-gyflwynwyr**

Sian Gwenllian (Arfon)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi pwysigrwydd hanfodol lleihau allyriadau amaethyddol er mwyn:

a) cryfhau enw da ffermio yng Nghymru;

b) gwarchod pobl a natur yng Nghymru rhag llygredd aer;

c) diogelu afonydd a moroedd Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;

d) cyflawni uchelgais sero net Cymru.

## 6 Dadl Plaid Cymru – Pwerau'r Senedd

(60 munud)

**NDM7701** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cytuno bod gan y chweched Senedd hon fandad i ddatganoli pwerau sylweddol pellach o San Steffan i Gymru.

2. Yn credu bod yn rhaid i'r Senedd gael yr ysgogiadau i wella bywydau ein dinasyddion ac ailadeiladu Cymru wyrddach, decach a mwy llewyrchus ar ôl y pandemig COVID-19.

3. Yn cydnabod y bygythiad i bwerau'r Senedd sy'n deillio o agwedd Llywodraeth y DU at ddatganoli, yn enwedig ers Brexit.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gychwyn y broses a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 i geisio pwerau i'r Senedd dros faterion a gedwir yn San Steffan ar hyn o bryd, gan gynnwys plismona a chyfiawnder, rheilffyrdd, lles, darlledu, prosiectau ynni, Ystâd y Goron, Deddf Cydnabod Rhywedd 2004 a'r pŵer i'r Senedd alw refferendwm rhwymol ar ddyfodol cyfansoddiadol Cymru.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Saesneg yn unig)

Deddf Cydnabod Rhywedd 2004 (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu bod canlyniad etholiad diweddar y Senedd yn dangos nad oes mandad ar gyfer newid cyfansoddiadol sylweddol na refferendwm pellach ar bwerau datganoledig.

2. Yn nodi'r cydweithrediad rhwng Llywodraeth Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru ar fframweithiau cyffredin yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

3. Yn croesawu'r cydweithredu rhwng Llywodraeth Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig coronafeirws, sy'n cynnwys:

a) darparu cyllid i ddiogelu busnesau, incwm, swyddi, gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector, y celfyddydau a mwy;

b) defnyddio'r fyddin;

c) caffael a darparu brechlynnau.

4. Yn credu mai'r ffordd orau o wasanaethu dyfodol Cymru yw fel rhan o Deyrnas Unedig gref.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei gwaith parhaus i sicrhau bod plismona a chyfiawnder yn cael eu datganoli yn unol ag argymhelliad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru.

2. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sefydlu comisiwn a sgwrs gyda phobl Cymru i ystyried ein dyfodol cyfansoddiadol.

3. Yn nodi cynlluniau Llywodraeth Cymru i gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o ‘Diwygio ein Hundeb’, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 2019.

Diwygio ein Hundeb: Cydlywodraethu yn y DU

## 7 Cyfnod pleidleisio

## 8 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7700** Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Effaith y newid yn yr hinsawdd ar iechyd meddwl.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 15 Mehefin 2021

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 02/06/2021 i'w hateb ar 09/06/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## GWEINIDOG YR ECONOMI

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

1 OQ56564 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn ymateb i'r addunedau amlinellwyd yn y Maniffesto Diwylliannol ar gyfer Adferiad gan What Next? Cymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

2 OQ56533 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol economi Cymru?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

3 OQ56538 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd o arferion diswyddo ac ailgyflogi gan gwmnïau sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru?

**Peter Fox** *Mynwy*

4 OQ56566 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi busnesau canol trefi yn etholaeth Trefynwy?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

5 OQ56552 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dwristiaeth hygyrch yng Nghymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

6 OQ56544 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau yn Sir Benfro dros y 12 mis nesaf?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

7 OQ56543 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ysgogi twf busnesau cynhyrchu bwyd bob dydd yng Nghymru?

8 **Vikki Howells** *Cwm Cynon*

OQ56537 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cryfhau economi cymoedd y de yn ystod tymor y Senedd hon?

9 **Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ56561 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i'r diwydiant twristiaeth yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

10 **Buffy Williams** *Rhondda*

OQ56541 **(e)**

Sut bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau yn y Rhondda ar ôl COVID-19?

11 **Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

OQ56555 **(e)**

Sut mae strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru i ddarparu swyddi sy'n talu'n well wedi newid yn sgil y pandemig?

12 **Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

OQ56531 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygiad SA1 yn Abertawe?

## Y GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

1 **Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

OQ56572 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth seibiant i ofalwyr di-dâl yn Nwyrain De Cymru?

2 **Joel James** *Canol De Cymru*

OQ56565 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y rôl y mae cyfleusterau meddygol cymunedol wedi'i chwarae yn ystod pandemig y coronafeirws?

3 **Vikki Howells** *Cwm Cynon*

OQ56536 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi menywod yng Nghymru sy'n profi'r menopos?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

4 OQ56570 **(e)**

Beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo defnyddio mwy o ragnodi cymdeithasol mewn practisau meddygon teulu?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OQ56569 **(e)**

Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi iechyd meddwl menywod yn dilyn pandemig COVID-19?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OQ56562 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynigion i roi'r brechlyn COVID-19 i blant?

**Ken Skates** *De Clwyd*

7 OQ56550 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddi mewn cyfleusterau iechyd yn Ne Clwyd?

**Buffy Williams** *Rhondda*

8 OQ56542 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y niferoedd sydd wedi manteisio ar y brechlyn COVID-19?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

9 OQ56539 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn triniaeth yn y GIG?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

10 OQ56551 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ofal sylfaenol yn ardal Caergybi?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

11 OQ56547 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adfer gwasanaethau iechyd yn ne-ddwyrain Cymru yn sgil pandemig COVID-19?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

12 OQ56534 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau fasgwlar yng ngogledd Cymru?